


# Digimap for Schools

## Fy Hoff Lwybr Twristiaeth

Paula Owens

### Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

### Teitl: Fy Hoff Lwybr Twristiaeth

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Ymholiad ardal leol, llais plant	Eich ardal leol

Gwybodaeth	Dod o hyd i leoedd. Ychwanegu gwybodaeth at fapiau. Sicrhau bod mapiau ar raddfeydd perthnasol sy'n addas ar gyfer y cyd-destun. Amlygu llwybrau. Mesur pellteroedd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Defnyddio mapio digidol/cyfrifiadurol i ddod o hyd i nodweddion a astudiwyd a'u disgrifio.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth lleoliadau a'i chyflwyno. Dilyn cyfarwyddiadau, ac amcangyfrif a chyfrifo pellteroedd.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd SOC 2-10a, SOC 2-14a

## Gweithgaredd

Amlygu hoff leoedd yn yr ardal leol a'u mapio, ac ysgrifennu canllaw i dwristiaid.

## Cyflwyniad

Yn y gweithgaredd hwn, mae'r plant yn dod yn arbenigwyr wrth iddyn nhw orfod cytuno rhyngddynt ar eu hoff bump neu ddeg lleoliad yn eu hardal leol cyn eu mapio nhw, a disgrifio sut i'w cyrraedd a pham ei bod hi'n werth ymweld â nhw. Mae *Digimap for Schools* yn defnyddio data'r Arolwg Ordnans a ddiweddarir yn rheolaidd, sy'n golygu bod y wybodaeth yn gywir a chyfredol. Gellir llunio mapiau ar raddfeydd gwahanol yn hawdd, i ddangos ble mae'r lleoedd yn yr ardal leol a sut leoedd ydyn nhw.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ddelfrydol ar gyfer gwaith maes. Gall disgyblion werthuso lleoedd lleol eu hunain a thynnu lluniau i'w hychwanegu at y taflenni y byddant yn eu cynhyrchu. Gellir ei gynnal yn yr ystafell ddosbarth os nad yw hyn yn bosibl, gan ddefnyddio mapiau a gwaith ymchwil ar y rhyngwyd.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Prif weithgaredd

Ble mae'r lleoedd gorau i fynd yn y gymdogaeth a pham? Ble maen nhw a sut ydych chi'n cyrraedd yno? Y dasg yw amlygu'r lleoedd hyn a chynhyrchu taflen gyda mapiau yn esbonio'r atebion i'r cwestiynau hyn.

Trafodwch hoff lleoedd yn ogystal â lleoedd y dylid eu cynnwys. Lluniwch restr fer a phleidleisiwch fel dosbarth i ddewis, er enghraifft, pump neu ddeg lle. Gallai pawb ddod o hyd i'r lleoedd hyn a'u mapio ar fap sy'n dangos yr ardal leol. Yna gallai plant gydweithio a gweithio ar un lle'n unig y grŵp, gan ddefnyddio mapiau i ymchwilio i fwy o wybodaeth ar gyfer eu taflen.

Mae'r cyflwyniad PowerPoint sy'n cyd-fynd â nhw yn rhoi enghraifft o sut beth allai'r cynnyrch gorffenedig ar gyfer y prif weithgarwch fod.

## Mynd gam ymhellach

- Gwahoddwch ddosbarth arall, neu rieni neu aelodau o'r gymuned leol i ddod i weld eich arddangosfa o daflenni a chanllawiau.
- Anfonwch rai o'ch taflenni i'w canolfan groeso leol.
- Lanlwythwch eich taflenni gorffenedig i wefan eich ysgol.
- Cynhyrchwch hysbyseb fideo fer yn sôn am ble mae'r lleoliad hwn, pam y dylech ymweld ag ef, a sut i gyrraedd yno.

## Dolenni ar y we

*Young Geographers Go Local* (Daearyddwyr Ifanc yn Mynd yn Lleol)

<http://www.geography.org.uk/cpdevents/onlinecpd/younggeographersgolocal/gettingtoknowyourlocalarea/>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877\_cynradd  
f1.0 Awst 2013

EDINA

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Taflen Un

- 1 Mae angen i bawb agor *Digimap for Schools*. Gan ddefnyddio'r rhestr o leoedd cytûn, dewch o hyd i bob un yn eu tro ar y map, gan ychwanegu marcïwr. Gall hyn olygu ychydig o waith ymchwil ar y rhyngwrwd i ddod o hyd i'r cyfeiriad neu gyfeirnod grid. Pan fyddwch yn dod o hyd i le, agorwch y bar offer *Annotation* (anodi) a dewiswch '*Add Marker*' (ychwanegu marcïwr), yna cliciwch ar y map. Efallai y byddwch yn penderfynu defnyddio marcwyr gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o leoedd, er enghraifft, allfeydd bwyd, siopau, amgueddfeydd, parciau ac yn y blaen, felly trafodwch fel dosbarth, sut y gallech drefnu'r lleoedd dewisol a chytuno ar allwedd. Bydd angen i chi gytuno ar farcwyr i ddangos canolfannau trafndiaeth lleol, fel yr orsaf drenau neu faes awyr os oes un gerllaw.



- 2 Ychwanegwch label ar gyfer pob lle. Dewiswch '*Place Label*' (gosod label), a dewis y maint testun lleiaf, yna cliciwch ar ble rydych chi eisiau ei roi ar y map ac ychwanegu'r testun.
- 3 Ymchwiliwch a dewch o hyd i leoliad eich gorsaf drenau agosaf neu unrhyw ganolfan trafndiaeth berthnasol arall. Ychwanegwch farciwr a label at y rhain fel yr uchod. Caewch y bar offer *Annotation* (anodi).
- 4 Dewiswch y golwg map sydd orau yn eich barn chi. Cadwch eich map gan roi teitl iddo. Gallwch fynd ato'n ddiweddarach a gweithio arno eto os oes angen.



# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Taflen Dau

- 1 (Gan weithio mewn grwpiau) agorwch eich map o'r lleoliadau wedi'u cadw a chlosiwch i'r lle mae eich grŵp yn gweithio arno. Neu, agorwch fap newydd os yw'r lleoedd dewisol yn eithaf agos at ei gilydd. Trafodwch fel grŵp pa wybodaeth y gallech ei hychwanegu at eich map. Er enghraifft:
  - Pa mor bell o'r orsaf (maes awyr/fferi) yw'r lle hwn?
- 2 Dewiswch yr offeryn mesur ar y prif far offer a dewiswch '*Measure distance*' (mesur pellter). Cliciwch ar yr orsaf, er enghraifft, a llusgwch y llygoden yn ofalus ar hyd y ffordd yr holl ffordd i'r lle. Ychwanegwch y wybodaeth hon at label, er enghraifft, 'Gorsaf 5 cilometr'. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer eich disgrifiad ysgrifenedig hefyd. AWGRYM: Os yw'r drafnidiaeth gyhoeddus agosaf ymhell i ffwrdd, yna, yn hytrach na llusgo'r llinell ar hyd pob ffordd, defnyddiwch linell syth 'fel yr hed y fran' i ddod o hyd i'r pellter.
- 3 Penderfynwch pa wybodaeth teithio arall sy'n berthnasol. A oes angen i chi ychwanegu llwybr ar gyfer cerdded neu deithio mewn car, er enghraifft? Defnyddiwch yr offeryn '*Draw line*' (tynnu llinell), ond dewiswch pa '*Line style*' (arddull llinell) a lliw sydd orau.
- 4 Argraffwch a chymharwch fapiau gydag eraill yn eich grŵp. Ydyn nhw'n glir? Pa un sydd orau a pham? Sut gellid eu gwella?
- 5 Defnyddiwch eich map i'ch helpu i ddod o hyd i wybodaeth arall y gallwch ei defnyddio yn eich deunydd ysgrifenedig, fel disgrifio ble mae'r lle hwn a pha leoedd eraill sydd gerllaw. 
- 6 Gallech ychwanegu llun neu ddau at eich map gan ddefnyddio'r offeryn '*Add image*' (ychwanegu delwedd).
- 7 Ysgrifennwch ddisgrifiad am y lle hwn i gyd-fynd â'r map. Gallech ychwanegu swigod siarad sy'n cynnwys gwybodaeth at y map neu ei gosod mewn ffurf fwy ffurfiol. Dyma rai syniadau o ran penawdau efallai yr hoffech eu cynnwys:
  - Ble mae (y lle hwn)?
  - Sut mae cyrraedd yno.
  - Pam mae'n werth ymweld â'r lle.
  - Yr amser gorau i fynd yno.
  - Ychydig o wybodaeth am yr ardal hon.
  - Adolygiadau defnyddwyr (ychwanegwch sylwadau gan aelodau eraill y dosbarth sydd wedi bod yno).

Rhowch eich mapiau, eich gwybodaeth ysgrifenedig ac unrhyw ddarluniau ychwanegol gyda'i gilydd mewn cynllun o'ch dewis chi.